DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mawrth 1 Mehefin 2010

Defnydd blaengar a diogel o'r We

Mae Urdd Gobaith Cymru, WISE KIDS a BT yn gweithio mewn partneriaeth i addysgu pobl ifanc ynglŷn â defnyddio'r we fyd eang yn ddiogel. Yn dilyn eu hapwyntiad, aeth nifer o'r 17 o swyddogion ieuenctid newydd sydd wedi eu penodi gan yr Urdd i weithio ar gynllun Llwybrau i'r Brig (rhan o'r cynllun Cyrraedd y Nod) ar gwrs hyfforddi pum diwrnod gyda WISE KIDS i ddeall sut i gysylltu â defnyddio technoleg a chyfryngau'r rhyngrwyd sy'n datblygu a newid yn gyson. Cawsant hefyd y cyfle i ddeall mwy ynglŷn â'r ffordd y mae pobl ifanc yn defnyddio'r we a'r dechnoleg hon.

Yn ôl Eryl Williams, Swyddog Datblygu'r Urdd ym Môn ac un a fynychodd y cwrs:

"Mi dreulion ni bum diwrnod yn ehangu ein dealltwriaeth o'r dechnoleg ddiweddaraf… blogs, RSS, wikis, creu a mewnosod fideos, Creative Commons, Twitter, Facebook, YouTube. Mi ddysgon ni hefyd am ddiogelwch electroneg, sut i reoli'r rhain, a gwnaethon ni hyd yn oed greu adnodd i'w ddefnyddio'n uniongyrchol â phobl ifanc. Mi ddysgon ni sut i ddosbarthu'r neges bod y dechnoleg yma'n ddiogel, os caiff ei defnyddio'n gyfrifol. Ers y cwrs, dwi wedi sefydlu tudalen Facebook i'r Urdd ym Môn yn ogystal â sianel YouTube. Mae gen i bellach fwy fyth o gyswllt â'r bobl ifanc. O'i ddefnyddio yn y ffordd gywir, mae Facebook yn adnodd anhygoel. Mi fwynheais i'r cwrs yn fawr ac mi fyddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes i fynychu."

Fel rhan o'r fenter hon, mae Dafydd Hughes, Dirprwy Bennaeth Ysgol y Preseli, wedi ysgrifennu 12 darn chwarae rôl ar gyfer eu defnyddio gyda disgyblion i ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r ffyrdd i adnabod ac osgoi profiadau negyddol ar y we. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gallant gael eu defnyddio o fewn y Cwricwlwm Drama neu'r Cwricwlwm Addysg Gymdeithasol a Phersonol. Yn ôl Dafydd Hughes:

"Mae dysgu electroneg a diogelwch electroneg yn flaenoriaeth i bawb yn Ysgol y Preseli. Mae sicrhau'r wobr Marc Ansawdd BECTA ICT yn pwysleisio ein hymrwymiad i ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf er mwyn hyrwyddo sgiliau a dysgu trwy ddefnyddio'r ICT.

Rydym hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd o gynnig yr arweiniad a'r gefnogaeth gywir i'n disgyblion, er mwyn sicrhau eu bod yn ymddwyn yn ddoeth ar-lein. Bydd yr adnoddau diogelwch electroneg yr wyf wedi eu paratoi mewn partneriaeth â'r Urdd a WISE KIDS yn dod yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Rydym eisoes wedi defnyddio llawer o'r esiamplau er mwyn annog trafodaeth. Rwy'n mawr obeithio y bydd yr adnoddau o fudd i ysgolion a grwpiau ieuenctid eraill ledled Cymru i annog pobl ifanc i drafod a rhannu profiadau positif a negyddol ar-lein mewn ffordd agored ac adeiladol."

Bydd yr holl adnoddau drama, yn ogystal â'r rheiny a grëwyd gan staff yr Urdd yn ystod y rhaglen hyfforddi ar gael ar www.ngfl-cymru.org.uk, www.urdd.org ac www.wisekids.org.uk

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:

"Mae'r Urdd yn hynod ddiolchgar i WISE KIDS a BT Cymru am eu cefnogaeth gyda'r prosiect. Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn deall datblygiad y dechnoleg newydd a diogelwch electroneg. Mae'r bartneriaeth hon wedi galluogi'r Urdd i ehangu ei wybodaeth a datblygu prosiectau newydd gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf."

Diwedd

Nodyn i'r Golygyddion: Gwahoddir y wasg i dderbyniad i ddathlu'r bartneriaeth am 11:15 y bore yn Annedd Wen ar Faes yr Eisteddfod. Yno bydd disgyblion Ysgol y Preseli yn perfformio rhai o'r golygfeydd 'Diogelwch ar y Rhyngrwyd'.

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Tuesday 1 June 2010

Innovative and Safe Use of the Web

Urdd Gobaith Cymru, WISE KIDS and BT are working in partnership to educate young people to make safe use of the web. Following their appointment, many of the 17 new youth officers appointed to work on the Routes to the Summit project, (part of the Reach the Heights initiative) attended a five day training programme with WISE KIDS to understand how to harness and engage with the new and evolving world of media and internet

technology. They also learnt more about how young people use the web and new technology.

Eryl Williams, Urdd Development Officer on Anglesey, attended the course. He says:

"We spent five days enhancing our understanding of the newest technology… blogs, RSS, wikis, creating and embedding videos, Creative Commons, Twitter, Facebook, YouTube. We also learnt about e-safety issues, how to manage these, and even created resources to use directly with young people. We learnt how to deliver the message that this technology is safe to use, if used responsibly. Since the course I've set up a Facebook page for the Urdd in Anglesey and a YouTube channel. I now have even more contact with the young people. Used in the right way, Facebook is a fantastic resource. I thoroughly enjoyed the course and would urge others who have an interest in this field to attend."

As part of this initiative, Dafydd Hughes, Assistant Head at Ysgol y Preseli, has written 12 different role play pieces to use with pupils to motivate discussions about how to recognise and avoid negative experiences on the internet. These resources available in Welsh and English, can be used in the Drama or Personal and Social Education Curriculum. Says Dafydd Hughes:

"E-learning and e-safety is a priority for all at Ysgol y Preseli. Securing the BECTA ICT Quality Mark award emphasises our commitment in terms of using the latest digital technology to promote learning and skills through the use of ICT. We also recognise the importance of providing the right guidance and support for our pupils in terms of being wise on-line. The e-safety resources that I have prepared in partnership with the Urdd and WISE KIDS will become an integral part of our curriculum. We have already used many of the scenarios to promote discussion. I hope that these resources will help other schools and youth groups throughout Wales to encourage young people to discuss and share their positive and negative experiences on-line in an open and constructive manner."

All these drama resources, as well as those created by the Urdd staff during their training programme will be available on www.ngfl-cymru.org.uk, www.urdd.org and www.wisekids.org.uk

Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru's Chief Executive says:

"The Urdd is extremely grateful to both WISE KIDS and BT Cymru for their support on this project. It is important that all those involved in youth work understand fully the new technology developments and e safety issues. This partnership has enabled the Urdd to expand its knowledge of such matters, and develop new projects using new technology."

Ends

Note to Editors: The press are invited to a reception to celebrate this partnership at **11:15am in Annedd Wen** on the Eisteddfod Maes, where pupils form Ysgol y Preseli will perform some of the 'Safety on the Internet' scenarios.

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.